rheilffordd dyffryn conwy

O'r Môr...trwy'r Dyffrynnoedd...i'r Mynyddoedd

ARRIVA Trains Wales / Trenau Arriva Cymru · CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL · GWYNEDD COUNCIL · SNOWDONIA NATIONAL PARK

MENTER RHEILFFORDD dyffryn conwy

Mae Lein Dyffryn Conwy'n mynd â chi o fae hardd "Brenhines y Trefi Glan Môr" yn Llandudno ar daith 30 milltir trwy dirwedd amrywiol dyffrynnoedd Conwy a Lledr lle cewch weld y tir yn newid yn raddol o fwynder y bryniau glas i fynyddoedd creigiog a garw Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd ein trên yn dringo i uchder o 790 troedfedd uwchben lefel y môr ac yn gwau ei ffordd trwy'r mynyddoedd i gyrraedd tref y llechen las ym Mlaenau Ffestiniog.

Mae eich taith yn cychwyn yn **LLANDUDNO**, y dref wyliau fwyaf yng Nghymru sy'n enwog am ei thraeth a'i phier yn ogystal â'i gwestai a'i siopau rhagorol.

Wrth i ni deithio i gyfeiriad **DEGANWY** gwelwn arfordir Gogledd Cymru a chawn gipolwg ar Ynys Môn ac Ynys Seiriol, cyn arafu wrth gyrraedd **CYFFORDD LLANDUDNO** lle cawn weld ysblander Castell Conwy, a godwyd ym 1284, ac sydd yn gwarchod y dref gaerog hyd heddiw.

Ceir cysylltiadau rheilffordd a bws rhagorol o'r "Gyffordd" ac efallai y cewch eich temtio i aros i fwynhau tamaid i'w fwyta yng nghaffe enwog **Denise's** yn yr orsaf.

Gan adael y brif lein byddwn yn dilyn aber Afon Conwy tan i ni gyrraedd **GLAN CONWY**, ac os bydd y llanw ar drai gallwn weld pob math o adar rhydiol yn ymgasglu i fwydo.

Tua dwy filltir i ffwrdd o **DAL-Y-CAFN** y mae gerddi byd enwog Bodnant gyda'u 80 erw o erddi godidog.

Wrth ddynesu at **DDOLGARROG** cewch gipolwg ar bibelli'r argae yn uchel yn y mynyddoedd a adeiladwyd i gyflenwi ynni trydan-dŵr.

Mae'r dyffryn wedyn yn culhau wrth i ni ddynesu at **OGLEDD LLANRWST** (Llanrwst a Threfriw gynt), gorsaf y bu'n rhaid iddi gystadlu yn y dyddiau a fu am deithwyr gyda chychod stem yr afon. Mae **LLANRWST** erbyn heddiw'n fan aros cyfleus ar gyfer y dref farchnad braf hon gyda Phont Inigo Jones sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg, Castell Gwydyr ac Eglwys Sant Crwst. Mae **Amgueddfa'r Elusendai** yn werth ymweliad am gipolwg ar y ffordd o fyw yn y dyddiau a fu.

Wrth i ni deithio i ddyfnderoedd coedwigoedd Gwydyr down at ganolfan wyliau enwog **BETWS-Y-COED**, sy'n ganolfan gyfleus i gerdded a dringo ac sydd â digonedd o ystafelloedd te, bwytai a llety.

Cerddwch am tua phum munud o'r orsaf, sydd hefyd yn orsaf bysiau, ac fe ddowch chi at y **Ganolfan Wybodaeth i Ymwelwyr** yn y Stablau, lle cewch wybodaeth am bopeth fydd ei angen arnoch.

Mae **Sherpa'r Wyddfa'n** rhwydwaith o wasanaethau bws sy'n teithio i ac o amgylch y rhan brysuraf o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'r tocyn diwrnod hwylus yn eich galluogi i fynd a dod fel y mynnwch ar y rhwydwaith Sherpa. Mae bysiau to agored yn rhedeg ar rai gwasanaethau.

Am ragor o fanylion am yr holl wasanaethau bws, gweler **Amserlenni Trafnidiaeth Gyhoeddus Gwynedd** a **Conwy** sydd ar gael yn y Canolfannau Croeso ac oddi wrth y cwmnïau bws, neu ffoniwch **Traveline Cymru.** (0871 200 22 33)

Nid oes yr un ymweliad â Betws-y-coed yn gyflawn heb alw yn **Amgueddfa Rheilffordd Dyffryn Conwy**, lle mae'n bosibl olrhain hanes y lein, teithio ar y trenau stem a disel, a mwynhau paned mewn cerbyd trên o'r 1950au, yn ogystal â chyfle i brynu anrheg o'r siop fodelau wych i fynd adref gyda chi i gofio am eich diwrnod.

Wrth adael Betws-y-coed mae'r lein yn codi'n serth wrth iddi ddynesu at Ddyffryn Lledr. Mae "Pont Gethin" yn draphont drawiadol o garreg gyda saith bwa, sy'n cludo'r lein ar draws llawr y dyffryn, ac wrth i'n trên ddringo'n araf i fyny rhan fwyaf serth y lein (1 mewn 47) daw **PONT-Y-PANT** i'r golwg.

Ein man aros nesaf yw pentref prydferth **DOLWYDDELAN** lle mae'r bobl leol ymfalchïo yn eu gorsaf. Ychydig y tu hwnt i'r orsaf gwelwn y castell yn gwarchod y bwlch, a fu unwaith yn gartref i Lywelyn Fawr, Tywysog Cymru.

Mae'r tirwedd yn newid unwaith eto wrth i ni barhau â'n taith heibio'r **BONT RUFEINIG**; mae'r mynyddoedd yn awr fel petaent yn cau amdanom, ac yn sydyn mae popeth yn mynd yn dywyll wrth i ni fynd i mewn i'r twnnel 2 filltir 333 llath o hyd o dan Foel Dyrnogydd.

Pan welwn olau dydd nesaf yr ydym yn cyrraedd byd y llechi ym **MLAENAU FFESTINIOG** ac rydym wedi'n hamgylchynu gan y rheswm dros adeiladu'r lein yn y lle cyntaf (rhwng 1863 ac 1879) – sef cludo llechi a nwyddau llechi.

Gallwch gamu'n ôl i'r gorffennol trwy ymweld â cheudyllau llechi dyfnaf y byd yn **Llechwedd** a mwynhau'r sioe sain a golau wych sy'n dangos bywyd chwarelwr Fictorianaidd yn ogystal â chael dysgu sut yr oedd llechi'n cael eu cloddio â llaw. ***Bydd eich tocyn trên yn golygu y gallwch fanteisio ar ostyngiad o 10% ar bris y daith!***

Ym Mlaenau Ffestiniog, mae Lein Dyffryn Conwy'n rhannu terfynfa yng nghanol y dref gyda **Rheilffordd Ffestiniog**, a adeiladwyd hefyd i gludo llechi i'r môr ac yn wir gallwch ei dilyn i Borthmadog.

Mae'r rhan fwyaf o'r trenau'n cael eu tynnu gan injan stêm. ***Mae tocyn ar gael sy'n caniatáu i chi deithio ar y ddwy lein, ac mae hynny'n golygu arbed swm sylweddol yn ogystal â sicrhau diwrnod i'w gofio!***

Ac felly, canwn yn iach i Flaenau Ffestiniog, man cychwyn y daith ymlaen am Wynedd. Mae lein Dyffryn Conwy n fwy na rheilffordd, mae n rhan o n treftadaeth a n ffordd o fyw ac mae n cael ei chefnogi gan fenter rheilffordd gymunedol leol sydd wedi ysgrifennu r geiriau hyn ar eich cyfer.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau eich taith ac edrychwn ymlaen at eich croesawu dro ar ôl tro ar lein Dyffryn Conwy.



GWYBODAETH I DEITHWYR

Mae prisiau r tocynnau n newid gyda r tymhorau, ond mae cynigion atyniadol ar gael bob amser. Yn fwyaf arbennig gweler y taflenni ar TOCYN TAITH (Tocyn Parth rheilffordd/bws newydd)

Ymholiadau Rheilffordd Cenedlaethol	08457 48 49 50	**www.nationalrail.co.uk**
Gwasanaeth Cymraeg	0845 60 40 500	
Ffôn testun	0845 60 50 600	
Traveline Cymru	0871 200 22 33	
www.arrivatrainswales.co.uk		

CANOLFANNAU GWYBODAETH

Llandudno	01492 876413	Llandudnotic@conwy.gov.uk
Conwy	01492 592248	conwytic@conwy.gov.uk
Betws y coed	01690 710426	Tic.byc@eryri npa.gov.uk
Blaenau Ffestiniog	01766 830360	Tic.blaenau@eryri npa.gov.uk

RHIFAU DEFNYDDIOL ERAILL

Llinell Archebu Llety Gogledd Cymru	08705 168 767
Amgueddfa Rheilffordd Dyffryn Conwy	01690 710568
Rheilffordd Ffestiniog	01766 516000 www.festrail.co.uk
Ceudyllau Llechi Llechwedd	01766 830306
Gerddi Bodnant	01492 650460
Rheilffordd Dyffryn Conwy	www.conwyvalleyrailway.co.uk

TEITHIAU CERDDED: Mae daflenni diddorol sy n rhoi gwybodaeth am teithiau cerdded yn yr ardal sy n cael ei wasanaethu gyn ein llinell a r gael o Glasdir Canolfan Datblygu Gwledig, LLANRWST, Conwy. LL26 0DF (Ffon 01492 640640)

• Dolwyddelan (£2) • Llanrwst (25p)

Am fwy o wybodaeth a r digwyddiadau lleol ymwelwch a **www.visitconwy.org.uk; www.dolwyddelan.org; www.llanrwst.net; www.4snowdoniaholidays.co.uk; www.betws y coed.co.uk**

Mae deiliaid cerdyn mantais sy n byw yng Nghonwy a Gwynedd yn gallu teithio am ddim ar bob gwasanaeth trennau Arriva Cymru rhwng Llandudno a Blaenau Ffestiniog o ganlyniad i gynllun peilot 12 mis ers Mai, 2008

Cyhoeddwyd gan: Menter Rheilffordd Dyffryn Conwy. Cynhyrchwyd gan Design2Print 01492 876610.

ACK: Lluniau gan Larry Davies a Ceudyllau Llechi Llechwedd.